

Pwyllgor Cyngor Hydref 24

PENNAL COMMUNITY COUNCIL

MRS E.D.BREESE
GOGARTH HALL FARM
PENNAL
MACHYNLLETH
POWYS
SY20 9LB
TEL:01654791235
Brees2000@aol.com
Deilwen Breese clerk
Cofnodion Cyngor Cymuned Hydref 24 2017

Materion yn Codi

Archwiliad BDO derbyniwyd cydnabyddiaeth cau yr archwiliad. am 16-17. ar gost o £272. Pont Newydd Bontardyfi. Anfowyd llythyr at y cwmni Griffiths yn cwyno eto am eu cynlluniau ar anfodlonrwydd I roi Cylchfan ger fferm y Ffridd I wneud y safle yma yn saff wedi gweld llawer o broblemau ar ffordd Dolgellau..

Cafwyd adroddiad oddi wrth Rhys Parry ar y cyfarfod a gafodd gyada Mr Gareth Williams Dwr Cymu i drafod problemau carffosiaeth Pennal deallwyd fod gwaith o jetior manholes yn cael eu wneud, ag hefyd bod angen valves newydd daeallwyd fod gwith yn mynd I gael eu wneud yr wythnos yma.

Cais am Arian derbyniwyd cais am arian gan y papur bro Dail Dysynni penderfynwyd cyfrannu £100. a dymuno yn dda I ddyfodol y Dail au holl wirfoddolwyr newydd. Diolch I chi gyd.

Careg fedd teulu Quapelle dal I aros ymateb gan y trwniod

Cais Cynllunio NP5/75/79C.

Cais Cynllunio Bettws Cwrt SY209JZ. Lledur mynedfa cerbydau presenol ac adeiladu storfa bin. Nid oedd gwrthwynebiad I ledur fynedfa gan eu fod yn leoliad peryg iawn.

Cais Cynllunio NP5?75/245A

Cais cynllunio Bettws Cwrt SY209JZ

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys gweithdy, storfs cyffredinol, storfa cerbydau fferm, stoefeydd gwelltporthiant ac offer swyddfa fferm cegin ystafell molchi a creu llain galed. Fe drafodwyd y cais yma yn hir a thrwyadl roedd y cadeirydd wedi derbyn cwynion a gwrthwynebiadau ir cais Fe benderfynodd y Cyngor I wrthwynebu y cais a gwneud y sylwadau canlynol Roedd maint y sied yn anferth, fe fyddai yr hoglau ar swm or moch yn mynd I amharu ar yr amgylchedd a phentre Cwrt ai thrigolion. Mae lleoliad y sied yn agos iawn ir tai yn amharu ar eu golygfeudd ai preifatrwydd. Hefyd roedd amheuion bod y safle mor agos ir afon.. Byddair clerch yn anfon y sylwadau at y Parc Cenedlaethol Eryri .

Estynwyd gwahoddiad arall I Dyfrig Siencyn I annerch y pwyllgor nesa.

Siop Pennal wedi cau. Trist iawn ydi nodi bod y siop wedi cau ergyd ddiflas ir pentref .Derbyniwyd llythyr o bwyllgor Canolfan Pennal yn anog cael Pwyllgo Cyhoeddus I drafod dyfodol y Siop nid oes gan y Cyngor fwriad I wneud hyn ond yn fodlon mynychu y cyfarfod pan fydd un wedi eu drefnu .

Sul y Cofio.

Derbyniwyd y wreath yw chyflwyno ar Sul y Cofio gan y cadeirydd. Talwyd £25 ir Royal British Legion Poppy appeal.

Coed Afalau.

Wedi derbyn y coed penderfynnwyd byddair cynghorwyr yn plannur coed eu hunain ond cysylltu ar ysgol a cael warden I ddod lawr I annerch y plant ar sut I ofalu amdanynt. wedi eu plannu.

Diolchwyd ir Cadeirydd am archebu a chodi y ddau hybysfwrdd newydd ir pentre a Cwrt.

Rhys Teras angen edrych ar y sefyllfa sut gellir gwella y safle I fodurwyr byddai Dewi Owen yn edrych mewn ir mater o gael blaenoriaeth I draffig o un cyfeiriad..

Cystadleuaeth Arbennig Dylunio Logo ir Cyngor maer beirnadu wedi cymryd lle ac fe fydd y Cyngor yn cysylltu ar ysgol ar ol hanner tymor. I gyflwyno gwobrau.

Cyfarfod nesa Tachwedd 19eg 2017